

4. YR WYLAN A'R GRAGEN
(Hydref)

Roedd yr haf drosodd a'r ymwelwyr wedi dychwelyd adref. O'i glwyd ar ben y clogwyn hedfanodd gwylan gan lanio ar draeth gwag ymhlith y cregyn.

''Drychwch ar y môr! 'Drychwch ar y môr!' galwodd.

Chymerodd y cregyn ddim sylw. Gan fod y tymor gwyliau drosodd, doedd neb ohonynt yn gweld fawr o bwrpas mewn sgwrsio, yn enwedig hefo rhyw hen wylan.

''Drychwch ar y môr! 'Drychwch ar y môr!' meddai'r wylan dro ar ôl tro nes i ryw sŵn llefain rhyfedd darfu arni.

'Bw hw hw. Bw hw hw.'

Syllodd yr wylan o'i hamgylch gan chwilio'r traeth â'i llygaid disglair. Dair sbonciad i ffwrdd y tu ôl i garreg gefngrwm fe'i gwelodd.

'Bw hw hw! Bw hw hw!' Yno gorweddai cragen lwyd a gwyn ddigon cyffredin, tua maint darn hanner can ceiniog mewn pwll o ddŵr bas yn beichio crio.

'Pam wyt ti'n crio, Gragen?' holodd yr wylan.

'Oherwydd . . bw hw . . . Dwi'n anhapus.'

'Pam? Be sydd o'i le?'

‘Popeth!’ nadodd y gragen. ‘Does neb fy eisiau i. Dwi’r siâp anghywir a’r maint anghywir a’r lliw anghywir. Bw hw hw hw.’

Gorweddodd yr wylan ar y tywod. Gwyddai fod pob cragen yn dyheu am gael ei chasglu gan un o’r ymwelwyr.

‘Rwyt ti’n edrych yn iawn i mi, Gragen,’ meddai.

Er i hynny godi calon y gragen am ryw hyd, ni pharhaodd yn hir.

‘Ond mae hynna . . . bw hw . . . oherwydd mai gwylan wyt ti . . . bw hw. Petait ti’n ddynol, fe fyddet ti’n gweld mor ddiwerth wyf i.’

‘Diwerth?’ meddai’r wylan yn feddylgar.

‘Hollol ddiwerth. Bw hw. Dwi’n rhy blaen i gael fy sticio ar flwch tlysau ac yn rhy fach i gael fy nefnyddio fel dysgl dal sebon.’

‘Rwyt ti’n lwcus,’ meddai’r wylan yn llon. ‘Byddai’n gas gen i gael fy ngludo’n gaeth i un lle neu gael darn o sebon llithrig ar fy mol.’

‘Ond dwi ddim hyd yn oed yn ddigon siapus i fod fel addurn ar fwrdd coffi neu gael fy nghodi i fyny gan ymwelwyr.’

‘Diolch byth ddywedwn i wir! Ti ddim wir eisiau gorfod syllu ar du mewn clustiau budr pobl, wyt ti?’

‘Ydw. Dwi isho.’ Roedd y gragen yn flin nawr. ‘Byddai unrhyw beth yn well nag eistedd yma ddydd ar ôl dydd gan wneud dim ond disgwyl i rywbeth ddigwydd. Wn i ddim ar y ddaear pam wnes i benderfynu siarad hefo ti yn y lle cyntaf. Gwylan wyt ti. Dwyt ti ddim yn deall.’

‘Dwi’n deall yn hollol,’ ysgydwodd yr wylan ei phen. ‘Fel pob cragen arall ar y traeth yma rwyt ti’n teimlo’n wag y tu mewn.’

Gwag! Suddodd y gragen yn ddyfnach i’r tywod gan ymddangos yn llai ac yn fwy plaen nag erioed.

‘Dos i ffwrdd, Wylan,’ mwmiodd.

‘Does dim rhaid i ti fod yn wag, wyddost ti. Pam na ofynni di i mi newid pethau i ti?’

‘Dwi’n gofyn i ti FYND I FFWRDD.’

‘Os mynni di.’ Cododd yr wylan. ‘Ffarwél.’

‘Na! Aros! Do’n i ddim yn ei feddwl o. Dwi ddim eisiau bod yn wag. Plîs arhosa a newid pethau i mi.’

Tair sbonc fach ac roedd y gragen ym mhig melyn llachar yr wylan.

'Help! Paid! Rho fi'n ôl!' sgrechiodd. 'Na, nid fel yna! Rho fi'n ôl yn iawn.'

'Dwi wedi,' meddai'r wylan. 'Dwi wedi dy droi di â'th ben i lawr.'

A'r haul yn tywynnu ar ei bol roedd y gragen druan yn gwegian o ochr i ochr wrth geisio troi'n ôl a'i chefn yn uchaf.

'Ymlacia! Paid â phoeni!' cysurodd yr wylan y gragen. Y funud nesaf roedd y gragen yn chwyrlïo ar frig y don wedi ei chipio gan y llanw.

'B – b – b – beth oedd hynna?' ebychodd wrth i'r don chwyrlïo am allan unwaith eto.

'Y môr yn golchi drosot ti.'

'Ond . . . roedd hynna'n *rhyfeddol*! Mae'r môr wedi sgubo drostaf fi ddwy waith bob dydd ers pan dwi'n cofio, ond chefais i *erioed* y fath deimlad o'r blaen!'

'Mae dy ochr isaf di ar i fyny, Gragen. Mae pethau'n wahanol nawr.'

Ysgubodd ail don y traeth gan drochi'r gragen unwaith eto.

'O, Wylan!' llefodd y gragen. 'Wn i ddim pam wnes i erioed feddwl am adael y traeth yma. Dwi'm yn teimlo'n wag o gwbl mwyach.'

'Mae dy ochr isaf di ar i fyny nawr, Gragen. Rwyt ti'n llawn o'r môr.'

Daeth trydedd don, gyda phedwaredd ac yna pumed don yn dynn ar ei sawdl.

Erbyn hyn roedd y gragen lathenni i ffwrdd oddi wrth y graig, yn ymlacio ac yn mwynhau ei hunan fwy a mwy gyda phob trochiad. Pan oedd ar frig y chweched don sylwodd ar y cregyn eraill yn eu rhesi arferol yn glynu'n dynn i'r tywod.

'Druan ohonynt,' sibrydodd. 'Dyw byw a'ch ochr isaf ar i lawr yn dda i ddim. Petaen nhw ond yn gwybod mor gyffrous yw newid.'

'Pam na ddywedi di wrthyn nhw?' awgrymodd yr wylan.

'O na, fedrwn i ddim, na fedrwn? Fyddwn i ddim yn gwybod beth i'w ddweud.'

'Dywed wrthyn nhw, er iddyn nhw fod ar yr un traeth â ti, eu

bod yn wahanol. Ac yna gad iddyn nhw holi pam.'

Wwwsh! Seithfed don, yn uwch, yn fwy ewynnog ac yn fwy nerthol na'r gweddill gan ysgubo'r gragen yr holl ffordd yn ôl at y garreg gefngrwm.

'Iawn!' gwaeddodd. 'Fe wna i. A diolch, Wylan.'

'Croeso.'

Ymledodd yr wylan ei hadenydd gan hedfan i ffwrdd. Wrth i awyr yr hydref dywyllu uwchlaw'r llanw nosweithiol, clywid ei chri'n atseinio'n llawen.

''Drychwch ar y môr! 'Drychwch ar y môr! 'Drychwch ar y môr!'

HYD: 4 munud

NEGES: Mae Duw eisiau llenwi'n bywydau â'i rym.

DARLLEN: Effesiaid 1: 15–23